COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHELIR A'R NOS LUN 28AIN O FAWRTH 2022 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Ceri Davies (Is-gadeirydd), Philip Williams, Bari Evans, Arwel Davies, Rhian Evans ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Geraint Jones, Hywel Davies, Falmai Evans ynghyd ar Gynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Chwefror 2022 yn gywir gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
A: Derbyniwyd diolch oddi wrth y mudiadau canlynol am rodd y Cyngor:-
1. Hosbis a Chanolfan Gofal St. Kentigern, Llanelwy - Rhoddwyd £200.
2. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Rhoddwyd £200.
3. Eglwys Saint Dyfnog tuag at gostau gofal a chadw mynwentau Eglwysi Llanrhaeadr a Phrion - Rhoddwyd £800.
4. Groes Goch Brydeinig Apêl Wcráin - Rhoddwyd £300.
B. Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r canlynol a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-
1. Draen wedi tagu wrth yr Hen Ysgol yn Llanrhaeadr.
2. Ffos wrth y King's Head yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau ar geg y bont.
3. Lon yn ddrwg iawn rhwng Prion a Llys.
4. Lon yn ddrwg rhwng Pen y Ffridd a Drws y Buddel yn Saron.
5. Safle'r cyngor ym Mryn Glas yn gywilydd i'w weld. Amryw yn cwyno am y lle.
6. Angen atgyweirio'r hysbysfwrdd wrth Gapel Saron cyn i'r gwydr syrthio allan ac i rywun gael niwed wrth ei agor.
7. Angen ail-osod arwydd "Ildiwch" wrth groesffordd y ffordd o Saron lawr am Hafoty Coch/Rhiwlas Uchaf.
8. Glamp o dwll yn y ffordd wrth giât Pen y Caeau Mawr a cheir yn dreifio ochr anghywir o'r ffordd i'w osgoi.
9. Mwy o dyllau dyfyn eto rhwng Tŷ Cerrig a Lon, Prion angen sylw.

6. ARWYDDION PENTRE' LLANRHAEADR.
Derbyniwyd cadarnhad fod Cyngor Sir Ddinbych wedi gosod y ddau arwydd "Pentre' Llanrhaeadr" a disgwylir am yr anfoneb gan y Cynfor Sir am £1,785 yr arwydd sydd yn gyfanswm o £3,570.00.
Cytunodd y Clerc atoffa Shepppard Homes am gyfraniad £1,785 (50%) tuag at gost.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.
Adroddwyd y Cadeirydd ei fod yn edrych am brisiau'r "Panel Wybodaeth" newydd cyn edrych am y posibilrwydd o grant trwy Gadwyn Clwyd.

8. ETHOLIAD CYNGHORAU CYMUNEDOL LLEOL 05.05.2022.
E-bostiodd y Clerc i'r aelodau'r amserlen ynghyd ar becyn etholiad "Cynghorau Cymunedol Lleol 5ed o Fai 2022" cyn y cyfarfod mis Mawrth 2022 y Cyngor.

9. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.
Derbyniwyd pedair cais am £200 i roi "Gwelyau Blodau" o fewn y gymuned "Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch" oddi wrth:-
A: Beryl Jones.
B. Gwenfyl Jones,
C. Tracey Williams.
D. Catrin Roberts.
Penderfynwyd yr Aelodau i dderbyn pedair cais ac i'r Clerc ofyn am dyst gan y pedwar unigolyn fod y gwariant o £200 wedi eu gwario cyn i'r Clerc rhyddhau'r arian.

10. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.
Nid oedd y Cynghorydd Geraint Jones yn bresennol yn y cyfarfod i roi'r adroddiad diweddaraf i'r Cyngor.

11. HYSBYSFWRDD SARON.
Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies i gael prisiau adnewyddu'r hysbysfyrddau yn Saron erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

12. MATERION CYLLID.
A. Datganiad Banc £14,169.48.
B. Rhoddwyd yr aelodau'r awdurdod i'r Clerc thalu'r canlynol:-
1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2022 £501.90.
2. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2022 £760.49.
3. HM Revenue & Customs ar gyfer PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2022 £125.60.
4. Chostau'r gwasanaeth banc £20.00.

13. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIAN.
Derbyniwyd dau gais am gefnogaeth arian ers y Cyfarfod blaenorol y Cyngor:-
A: Cymdeithas Maes-y-Plwm (Peniel) - penderfynwyd ar y rhodd o £250.00.
B. Capel Saron am dorri'r fynwent y Capel. Penderfynwyd ar y rhodd o £400.00.

14. MATERION CYNLLUNIO.
Mae'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-
A. Cais 23/2022/0094 - Dangos 2 arwyddion mewn cysylltiad o fusnes fferm ar dir i'r de o Lwyn Banc, Llanrhaeadr.
B. Cais 23/2022/0093 – Ffurfio mynediad a thrac amaethyddol gyda gwaith cysylltiedig yn Llwyn Banc, Llanrhaeadr.

15. GOHEBIAETH.
Dim gohebiaeth ychwanegol i'w thrafod.

16. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol yn y cyfarfod.

17. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
A; Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies rhoi lluniau ffyrdd gwaethaf y Gymuned i'r Clerc tynnu sylw Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych atynt.
B. Mae'r gwaith yn y par car fin cychwyn yn yr wythnos i ddŵad.
C. Derbyniwyd gwybodaeth fod Capel -y-Pentre, Llanrhaeadr am benderfynu trosiad rhan o'r adeilad yn Ganolfan y Pentre'.
D. Derbyniwyd adroddiad fod Pennaeth presennol Ysgol Bro Cinmeirch yn gadael y swydd a gofynni'r Clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch dros y Cyngor Cymuned yn diolch at Mrs Gwennol Ellis am ei gwasanaeth fel Pennaeth yr Ysgol.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 25AIN O EBRILL 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION.